

## **Adolygiad o'r gofal a ddarperir i gleifion ag anhawster dysgu neu broblem iechyd meddwl yn:**

**Ysbyty Iechyd Meddwl Annibynnol  
Delfryn House a Lodge a Rhyd Alyn**

**Dyddiad yr ymweliadau:  
5, 6, 7 a 8 Rhagfyr 2011**

Gall y cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) gael eu darparu mewn ffurf neu iaith arall ar gais. Bydd oedi byr wrth i ni baratoi ieithoedd a fformatau gwahanol er mwyn diwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Mae copïau o bob adroddiad, ar ôl ei gyhoeddi, ar gael ar ein gwefan, neu cysylltwch â ni:

Yn ysgrifenedig:

**Rheolwr Cyfathrebu a Chyfleusterau  
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru  
Tŷ Bevan  
Parc Busnes Caerffili  
Heol y Fan  
CAERFFILI  
CF83 3ED**

Neu trwy'r canlynol

**Ffôn:** 029 20 928850  
**Ebost:** [hiw@wales.gsi.gov.uk](mailto:hiw@wales.gsi.gov.uk)  
**Ffacs:** 029 20 928877  
**Gwefan:** [www.hiw.org.uk](http://www.hiw.org.uk)

# Cynnwys

## Rhif y Dudalen

1.	Cyflwyniad a Chefndir	1
2.	Ein Canfyddiadau	4
3.	Casgliad	12
4.	Gofynion	14
5.	Y Camau Nesaf	17

# 1. Cyflwyniad a Chefndir

1.1 Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) sy'n rheoleiddio gwasanaethau gofal iechyd yng Nghymru, ac mae'n cyflawni'r swyddogaeth honno ar ran Gweinidogion Cymru a ddynodwyd, trwy awdurdod Deddf Llywodraeth Cymru 2006, fel yr awdurdod cofrestru ar gyfer Cymru.

1.2 Rhaid i ddarparwyr gofal iechyd annibynnol fod wedi eu cofrestru ag AGIC cyn iddynt gael darparu gwasanaethau yng Nghymru, ac er mwyn cofrestru, mae'n rhaid iddynt ddangos eu bod yn cydymffurfio â Deddf Safonau Gofal 2000 a'r rheoliadau cysylltiedig. Mae mwy o wybodaeth am y Safonau a'r rheoliadau cysylltiedig ar gael yn [www.agic.org.uk](http://www.agic.org.uk).

1.3 Ym mis Mai 2011, darlledwyd rhaglen yng nghyfres deledu ymchwiliol y BBC, *'Panorama'*, yn tynnu sylw at achosion o gam-drin unigolion ag anabledd dysgu a oedd yn byw mewn ysbyty annibynnol ym Mryste. Arweiniodd y rhaglen at bryder mawr ymhlith y cyhoedd, sy'n gwbl ddealladwy. O ganlyniad, penderfynodd AGIC ddwyn ymlaen ein rhaglen flynyddol o adolygiadau o ysbytai annibynnol sy'n darparu gwasanaethau ar gyfer anawsterau dysgu ac iechyd meddwl.

1.4 Pwyslais yr adolygiadau oedd sicrhau bod unigolion a oedd yn defnyddio gwasanaethau o'r fath yn:

- Ddiogel.
- Derbyn gofal mewn amgylchedd therapiwtig a chartrefol.
- Derbyn gofal a thriniaeth briodol gan staff sydd wedi eu hyfforddi'n briodol.
- Cael eu hannog i gyfrannu at eu cynlluniau gofal a thriniaeth.
- Cael eu cynorthwyo i fod mor annibynnol ag y bo modd.
- Cael gwneud dewisiadau, ac yn cael eu hannog i wneud hynny.
- Cael cyfle i gymryd rhan mewn amrywiaeth o weithgareddau sy'n eu hannog i wireddu eu potensial.

- Cael defnyddio gwasanaeth eiriolwyr annibynnol a chael eu cefnogi i fynegi pryderon a chwynion.
- Cael eu cynorthwyo i gynnal perthynas â ffrindiau ac aelodau o'r teulu pan fyddant yn dymuno gwneud hynny.

1.5 Yn rhan o'n proses arolygu, rydym yn cynnal trafodaethau trylwyr, yn rheolaidd, â chleifion ac aelodau staff ac yn arsylwi'n ofalus yr ymadweithio rhwng cleifion a staff. Fe allem hefyd gyfarfod ag aelodau o'r teulu neu eiriolwyr cleifion i ofyn eu barn am y gofal a ddarperir. Yn ogystal ag adolygu pa mor briodol yw'r amgylchedd ffisegol, rydym yn gwerthuso safon amrywiaeth o ddogfennau gan gynnwys cynlluniau gofal cleifion, polisïau a gweithdrefnau, cynlluniau hyfforddiant a hyfforddiant sefydlu'r staff, a chofnodion cwynion, ataliad a digwyddiadau. Mae AGIC yn defnyddio amrywiaeth o adolygwyr arbenigol a lleyg i gynnal y broses arolygu, gan gynnwys adolygwr â phrofiad helaeth o fonitro cydymffurfiad â Deddf Iechyd Meddwl 1983.

## **Delfryn House a Lodge**

1.6 Cofrestrwyd ysbyty annibynnol Delfryn House and Lodge gyntaf ym mis Rhagfyr 2005 ac ar adeg ein hymweliad roedd wedi'i gofrestru i ddarparu gofal i 58 o gleifion ar ddwy ward a chyfleuster cam-i-lawr (Rhyd Alyn). Mae'r ysbyty'n darparu gwasanaeth adsefydlu i gleifion ag anhwylder meddwl y gellir eu cadw hefyd dan ddarpariaethau'r Ddeddf Iechyd Meddwl (1983). Cambian Healthcare Ltd yw darparwr cofrestredig yr ysbyty.

1.7 Cynhaliodd AGIC ymweliad dirybudd â Delfryn ar 5, 6, 7 ac 8 Rhagfyr 2011.

1.8 Nodir y canfyddiadau a ddeilliodd o'r ymweliadau hynny yn Adran 2 yr adroddiad hwn. Rydym wedi nodi meysydd o gryfder yn ogystal â meysydd y mae angen eu gwella. Mae Adran 4 yr adroddiad hwn yn rhestru gofynion AGIC o ran camau gweithredu.

1.9 Yn dilyn yr ymweliad rhoddwyd adborth manwl ar lafar i'r rheolwr cofrestredig a'r pennaeth gofal a dilynwyd hyn gan lythyr i'r darparwr cofrestredig a'r rheolwr yn rhoi manylion unrhyw dorri rheolau. Mewn ymateb i'r llythyr hwn anfonodd y darparwr cofrestredig gynllun gweithredu i AGIC.

## 2. Ein Canfyddiadau

2.1 Mae Cylch Gorchwyl yr adolygiad hwn wedi'i drefnu ar sail cyfres o gwestiynau sylfaenol yr ydym ni'n teimlo y byddai cleifion, eu perthnasau a chomisiynwyr gwasanaethau<sup>1</sup> yn dymuno i ni eu gofyn. Er mwyn eu gwneud yn eglur ac yn haws cyfeirio atynt, rydym wedi nodi ein canfyddiadau o dan bennawd pob cwestiwn. Ystyrir y cwestiwn cyntaf:

***'A oedd y bobl a oedd yn defnyddio'r gwasanaeth ar adeg ein hymweliad yn ddiogel?'***

yn Adran 3 yr adroddiad hwn, lle'r ydym yn cyflwyno ein casgliadau a'r camau nesaf. Ni ellir ond ateb y cwestiwn hwn ar ôl rhoi ystyriaeth ofalus i'r cwestiynau isod:

***'A oedd y bobl a oedd yn defnyddio'r gwasanaeth ar adeg ein hymweliad yn derbyn gofal mewn amgylchedd therapiwtig a chartrefol?'***

### Delfryn House

2.3 Mae Delfryn House yn rhoi gofal i gleifion gwrywaidd ac mae pob ystafell wely yn un sengl. Mae gan gleifion eu hallwedd eu hunain i'w hystafell ac mae loceri personol ar gael iddynt. Mae lle i 28 claf ac ar adeg ein hymweliad roedd 19 claf yn derbyn gofal. Mae teimlad braf, croesawgar a chartrefol i'r tŷ ac roedd y ddwy lolfa wedi eu trefnu'n dda, heb annibendod. Roedd ystafelloedd ar gael ar gyfer cyfarfodydd cyfrinachol a chyfarfodydd y tîm amlddisgyblaethol. Mae'r ystafell grefftau'n fan poblogaidd ac mae gwaith celf a chreffft y cleifion yn cael ei arddangos yno. Gall cleifion fynd i'r ardd tan hanner nos.

<sup>1</sup> Comisiynwyr gwasanaethau – y sefydliad sy'n prynu gwasanaethau a thriniaeth gan y darparwr cofrestredig

2.4 Mae cynllun y tŷ yn dda yn gyffredinol ac ychydig o fannau dall sydd yno. Mewn dau achos roedd y paneli gweld yn nrysau'r ystafelloedd gwely ar agor a gallai hynny effeithio ar breifatrwydd ac urddas. Dylai'r paneli gweld fod ar gau ac eithrio pan fo asesiad risg penodol yn nodi y dylent fod ar agor. Gwelwyd bod dau gwpwrdd coridor ac ynddynt wifrau trydanol yn cynnwys papur wrth ymyl y cyfarpar trydanol. Rhoddwyd sylw i hyn ar y pryd a chafodd y papur ei symud oddi yno. Mae storio dogfennau mewn mannau o'r fath yn risg tân a dylid cynnal archwiliadau rheolaidd i sicrhau nad ydynt yn cael eu defnyddio i storio deunydd amhriodol.

## **Delfryn Lodge**

2.5 Ward i fenywod yw hon. Mae yno le i hyd at 24 claf ac roedd 19 claf yn derbyn gofal ar adeg yr ymweliad. Mae gan bob claf ystafell unigol en-suite ac mae dwy ystafell ymolchi ar wahân. Roedd yr amgylchedd yn debyg i Delfryn House, gyda lluniau a dodrefn meddal a thystiolaeth bod y cleifion yn personoleiddio eu hystafelloedd.

2.6 Roedd y man ymweld ar gyfer plant yn cynnwys nifer o deganau ond gellid gweld y fynedfa iddo o lolfa'r menywod ac efallai nad yw hynny bob amser yn briodol.

## **Rhyd Alyn**

2.7 Mae lle ar y ward hon i chwe chlaf ac roedd pedwar claf yn derbyn gofal ar adeg yr ymweliad. Mae'r ward yn canolbwyntio ar ddatblygu hunanofal a sgiliau byw personol cyn rhyddhau. Yn rhan o'r rhaglen adsefydlu mae sgiliau coginio, ac roedd yn amlwg iawn nad oedd y gegin yn ddigon mawr i chwech o bobl baratoi prydau bwyd ar yr un pryd. Dywedodd yr unigolyn â gofal am yr uned wrth AGIC eu bod yn dod i ben â hyn drwy i'r cleifion goginio prydau ar adegau gwahanol.

***'A oedd y bobl a oedd yn defnyddio'r gwasanaeth ar adeg ein hymweliad yn derbyn gofal a thriniaeth briodol gan staff sydd wedi'u hyfforddi'n briodol?'***



## Niferoedd y Staff

2.8 Roedd nifer a chymwysterau'r staff a oedd yn eu swyddi ar adeg ein hymweliad yn ddigonol i ofalu am y 42 claf oedd yn yr ysbyty. Nid oedd dim staff asiantaeth yn cael eu cyflogi, er bod y rheolwr yn defnyddio staff banc pan oedd angen gwneud hynny. Roeddem yn falch o nodi bod y pryderon ynghylch prinder staff a nodwyd yn ein hadroddiad yn 2010–2011 wedi cael sylw a dywedodd aelodau o'r staff wrthym fod morâl staff wedi gwella o ganlyniad i hynny.

## Hyfforddiant Staff

2.9 Rhoddwyd cyfweiliadau i 13 aelod o'r staff yn ystod ein hymweliad ac archwiliwyd cofnodion staff a ffeiliau personol unigol. Roedd yn amlwg nad oedd rhai aelodau o'r staff wedi derbyn hyfforddiant gorfodol ers peth amser ac roedd angen mynd i'r afael â hyn fel mater o frys.

2.10 Mae angen hyfforddiant pellach ar rai aelodau o'r staff mewn Rheoli Trais ac Ymddygiad Ymosodol (MVA) i'w galluogi i ymdrin yn briodol ag agweddau ar ymddygiad heriol.

2.11 Roedd yn amlwg nad oedd pob aelod o'r staff wedi cwblhau hyfforddiant sefydlu. Mae'n bwysig bob pob aelod o'r staff yn cwblhau hyfforddiant sefydlu er mwyn sicrhau eu bod wedi'u paratoi'n drylwyr a'u bod yn ymwybodol o systemau a phrosesau'r sefydliad.

2.12 Nid oedd y staff yn cael eu goruchwylio mor aml ag sy'n ofynnol. Roedd rhai aelodau o'r staff o'r farn y byddai goruchwyliaeth yn cael ei gohirio pe byddai prinder staff. Yn y rhan fwyaf o achosion nid oedd arfarniadau staff blynyddol yn cael eu cynnal sy'n codi pryderon ynghylch p'un a yw arferion gofal yn cael eu monitro'n llawn ac anghenion dysgu'n cael eu nodi.

2.13 Codwyd pryderon am arferion rheoli meddyginiaeth ac amlygwyd materion ynghylch benthycu meddyginiaeth un claf ar gyfer claf arall yr oedd ei feddyginiaeth allan o stoc, cofnodi defnydd o gyffuriau a storio cyffuriau a reolir.

2.14 Rhoddodd yr ysbyty sicrwydd y byddai rhaglen hyfforddi'n cael ei sefydlu a'i rhoi ar waith a fyddai'n sicrhau y byddai gofynion hyfforddi pob aelod perthnasol o'r staff yn gwbl gyfredol. Bydd y rhaglen yn cwmpasu Rheoli Trais ac Ymddygiad Ymosodol, Deddf Iechyd Meddwl (1983), Galluedd Meddyliol, Trefniadau Diogelu Rhag Colli Rhyddid (DOLS), atal tân, rheoli heintiau, Iechyd a Diogelwch, a Diogelu Oedolion a Phlant. Byddai hyfforddiant arall yn cael ei wneud yn electronig gan staff unigol a byddai'r dysgu'n cael ei asesu. Nod yr ysbyty oedd y byddai pob aelod o'r staff yn cael hyfforddiant erbyn mis Ebrill 2012 a chaiff hyn ei fonitro ar ymweliadau pellach.

2.15 Dywedwyd wrthym ar ôl yr ymweliad fod fferylllydd annibynnol wedi ei contractio i ddatblygu modiwlau hyfforddi penodol ar gyfer nyrsys cofrestredig. Byddai hyn yn cynnwys rheoli cyffuriau a reolir a rhoi meddyginiaeth.

2.16 Hysbyswyd AGIC y byddai'r Pennaeth Gofal yn cynnal asesiadau cymwyseddau clinigol gyda'r holl nyrsys cofrestredig.

2.17 Ers ein hymweliad, gosodwyd cwpwrdd dan glo ar gyfer cyffuriau a reolir. Cedwir yr allwedd i gyd gan nyrs gofrestrdig ar ddyletswydd yn yr ysbyty.

## **Polisiau a Gweithdrefnau**

2.18 Roedd ystod helaeth o bolisiau a gweithdrefnau wedi'u sefydlu. Roeddent yn gyfredol ac roedd tystiolaeth bod y staff wedi eu darllen.

***'A oedd y bobl a oedd yn defnyddio'r gwasanaeth ar adeg ein hymweliad yn cael eu hannog i gyfrannu at eu cynlluniau gofal a thriniaeth eu hunain, yn***

*cael eu cynorthwyo i fod mor annibynnol ag y bo modd, ac yn cael gwneud dewisiadau ac yn cael eu hannog i wneud hynny?’*

## **Adolygu Dogfennau Cynllunio Gofal**

2.19 Buom yn adolygu dogfennau cynllunio gofal a chafwyd nad oeddent yn cael eu cwblhau'n gyson. Roedd rhai'n gyflawn ac yn gyfredol, tra bo eraill yn cynnwys asesiadau risg oedd wedi dyddio.

2.20 Mewn un achos yn Rhyd Alyn nid oedd y cynllun gofal ar gael ar y ward. Nid yw hyn yn dderbyniol ac fe'i codwyd fel pryder ar unwaith yn ystod ein hymweliad. Unionodd yr ysbyty y mater ac ers hynny mae wedi sefydlu system i sicrhau bod gan bob claf gynllun gofal ar gael ar y ward lle mae'n aros. Dywedwyd wrthym y bydd cynlluniau gofal, ar ôl ein hymweliad, yn cael eu hadolygu'n rheolaidd ac y bydd y pennaeth gofal yn cynnal haparwchiliadau.

2.21 Nid oedd y cynlluniau gofal yn cael eu cadw'n un set ar gyfer pob claf. Roedd rhai proffesiynau yn cadw eu sylwadau eu hunain mewn adrannau ar wahân ac roedd hyn yn ei gwneud yn anodd i staff weld trefn gronolegol y gofal a roddwyd.

2.22 Mae nyrsys cofrestredig yn treulio gormod o amser yn cofnodi gwybodaeth, sy'n lleihau eu cysylltiad â'r cleifion. Cododd staff a chleifion y pryder hwn gyda ni ac o'r hyn a welsom rydym yn rhannu'r pryder. Yn ei ymateb i'n llythyr ar ôl yr ymweliad mae'r ysbyty yn ymrwymo i adolygu'r ffordd y cedwir cynlluniau gofal.

2.23 O gynnal cyfweiliadau â'r cleifion ac o graffu ar gynlluniau gofal roedd yn amlwg nad oedd rhai cleifion yn gwybod beth oedd yn eu cynllun gofal. Mae'n bwysig bod cynlluniau gofal yn gyfredol a bod cleifion yn cael eu hannog, dro ar ôl tro os oes angen, i fod yn rhan o gynllunio'u gofal. Er ein bod yn cydnabod bod dogfennaeth yn rhan hanfodol o ddarparu gofal, mae angen adolygu'r gwaith papur i sicrhau bod gan nyrsys cofrestredig ddigon o amser i gynnwys cleifion yn y broses o gynllunio gofal.

2.24 Nid oedd rhai penderfyniadau am ofal y cleifion yn ystyried dewisiadau unigol. Er enghraifft, penderfynwyd gwahardd diodydd sy'n cynnwys caffeine o Delfryn House. Ers hynny mae'r ysbyty wedi bod yn egluro'n well i'r cleifion pam y gallai fod angen monitro gofalus ar ddiodydd o'r fath mewn achosion penodol.

2.25 Roedd y Dull Rhaglen Ofal (CPA)<sup>2</sup> ar waith. Roedd cyfeiriadau yn y dogfennau a archwiliwyd gennym at gleifion yn cael eu gweld gan eu cydlynnydd gofal yn y gymuned<sup>3</sup> ac roedd teuluoedd yn cael eu gwahodd i gyfarfodydd CPA gyda chytundeb y claf.

***'A oedd y bobl a oedd yn defnyddio'r gwasanaeth ar adeg ein hymweliad yn cael cyfle i gymryd rhan mewn ystod o weithgareddau sy'n eu hannog i wireddu eu potensial?'***

## **Gweithgareddau'r Cleifion**

2.26 Trafodwyd ystod o faterion â'r cleifion a chanolbwyntiwyd ar p'un a oeddent yn teimlo'n ddiogel ac yn cael eu cefnogi'n ddigonol. Yn gyffredinol, dywedodd cleifion wrthym eu bod yn teimlo eu bod yn gallu siarad yn rhydd a'u bod yn derbyn gofal da mewn amgylchedd diogel.

2.27 Roedd ystod dda o weithgareddau therapiwtig ar gael i gleifion yn yr ysbyty ac yn y gymuned leol. Roedd cydlynwyr gweithgareddau'n cael eu cyflogi ac eithrio ar benwythnosau. Gwelsom gleifion yn brysur â'u rhaglenni unigol.

2.28 Roedd penwythnosau'n amser llai strwythuredig pan oedd cleifion yn gallu ymlacio'n rhwyddach. Dywedodd rhai cleifion wrthym eu bod yn dewis mynd am dripiâu lleol, a hynny'n aml ym mws yr ysbyty. Roedd cleifion eraill yn cael eu hannog i weld eu teuluoedd yn yr ysbyty neu i ymweld â nhw.

<sup>2</sup> Dull Rhaglen Ofal – system gydlynol o reoli gofal sy'n seiliedig ar ddull sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn ac yn seiliedig ar anghenion yr unigol. Mae pedair elfen o fewn CPA; asesiad systematig, datblygu cynllun gofal, penodi cydlynnydd gofal ac adolygiadau rheolaidd o'r cynllun.

<sup>3</sup> Cydlynnydd Gofal yn y Gymuned – gweithiwr proffesiynol iechyd neu ofal cymdeithasol cymwysedig sy'n cynllunio ac yn goruchwylio cynllun gofal fel rhan o'r CPA.

2.29 Mae'r cleifion yn gyfrifol, gyda chymorth y staff, am gadw eu hystafelloedd yn lân ac yn daclus. Mae'r rhai sy'n gallu gwneud hynny hefyd yn cael defnyddio'r gegin therapiwtig i baratoi bwyd.

2.30 Mae'r rhaglen adsefydlu'n annog cleifion sy'n gallu manteisio ar absenoldeb yn y gymuned i wneud hynny. Yn ystod yr ymweliad gwelwyd sawl enghraifft o absenoldeb yn y gymuned gan gleifion.

## **Maeth**

2.31 Dywedodd y cleifion a'r staff fod safon y bwyd yn uchel a bod dewis da ar gael. Mae cleifion yn cael cyngor o ran maeth ac roedd ffrwythau ffres ar gael yn rhwydd.

2.32 Gallai cleifion wneud byrbrydau, yn cynnwys tost a grawnfwyd.

2.33 Roedd grŵp brecwast yn cael ei gynnal deirgwaith yr wythnos ac roedd cleifion yn helpu i baratoi'r bwyd a chreu pryd cymdeithasol.

2.34 Roedd bwydlenni'n cael eu harddangos ac roedd yr ystafelloedd bwyta'n fannau braf.

2.35 Roedd cleifion yn Rhyd Alyn yn gyfrifol am goginio eu bwyd eu hunain, ac eithrio ar benwythnosau. Roedd y gegin ar y ward yn fach ac yn adrannol. Roedd angen bod yn amyneddgar er mwyn i bob claf gael cyfle i ddefnyddio'r cyfleusterau.

***'A oedd y bobl a oedd yn defnyddio'r gwasanaeth ar adeg ein hymweliad yn cael defnyddio gwasanaeth eiriolwyr annibynnol ac a oeddent yn cael eu cefnogi i fynegi pryderon a chwynion?'***

## Defnyddio Gwasanaethau

2.36 Roedd y cleifion yn gwybod sut i godi pryderon a chwynion ac roedd staff y ward yn gwybod sut i'w cefnogi i wneud hynny.

2.37 Mae eiriolwr yn ymweld bob wythnos ac mae cleifion yn cael gwybodaeth am sut i gael cymorth. Mae cymorth eiriolaeth hefyd ar gael i gleifion mewn adolygiadau a thribiwnlysoedd.

*'A oedd y bobl a oedd yn defnyddio'r gwasanaeth ar adeg ein hymweliad yn cael eu cynorthwyo i gynnal perthynas â ffrindiau ac aelodau o'r teulu pan oeddent yn dymuno gwneud hynny?'*

## Cymorth i Gleifion i Gadw Cysylltiad â Theulu a Ffrindiau

2.38 Pan fo cleifion yn gallu gwneud hynny, maent yn cael eu hannog i fanteisio ar absenoldeb gartref neu yn y gymuned. Mae rhwydd hynt iddynt hefyd gysylltu â ffrindiau a theulu dros y ffôn unrhyw bryd. Nid oedd tystiolaeth i awgrymu bod cleifion yn cael eu rhwystro rhag ymweld â theulu oherwydd prinder staff.

2.39 Roedd teuluoedd yn cael eu hannog i fod yn rhan o'r broses o gynllunio gofal ac i fynychu cyfarfodydd adolygu.

### 3. Casgliad

#### *‘A oedd y bobl a oedd yn defnyddio’r gwasanaeth ar adeg ein hymweliad yn ddiogel?’*

3.1 Cynhaliwyd ymweliad AGIC ar 5, 6, 7 ac 8 Rhagfyr 2011 a nodwyd rhai enghreifftiau o dorri rheoliadau a phryderon arwyddocaol.

3.2 Yn syth ar ôl ein hymweliad anfonodd AGIC llythyr at y darparwr cofrestredig yn amlinellu’r materion yr oedd angen rhoi sylw iddynt ar frys. Mewn ymateb i’n llythyr anfonodd y darparwr cofrestredig gynllun gweithredu at AGIC. Yn dilyn hynny cafwyd diweddariadau rheolaidd sy’n rhoi tystiolaeth o gynnydd yn erbyn y cynllun gweithredu.

3.3 Mae’r camau a gymerwyd gan y darparwr cofrestredig hyd yma’n cynnwys:

- Darparu hyfforddiant i nyrsys cofrestredig ynghylch rheoli meddyginiaeth a chyffuriau a reolir.
- Gosod cwpwrdd wedi’i gloi i storio cyffuriau a reolir.
- Sicrhau bod pob aelod perthnasol o’r staff yn cael hyfforddiant o ran Rheoli Trais ac Ymddygiad Ymosodol, Deddf Iechyd Meddwl (1983), Galluedd Meddyliol, Trefniadau Diogelu Rhag Colli Rhyddid (DOLS), atal tân, rheoli heintiau, Iechyd a Diogelwch, a Diogelu Oedolion a Phlant, a hynny erbyn mis Ebrill 2012. Bydd pob hyfforddiant arall yn cael ei gwblhau ar-lein a’i asesu o ran cymhwysedd.
- Adolygu’r ffordd y caiff cynlluniau gofal eu cwblhau a dod o hyd i ffyrdd o leihau gwaith papur i nyrsys cofrestredig i roi mwy o amser iddynt gyda chleifion. Adolygu rheolau’r tŷ a gwneud yn siŵr bod cleifion yn cael esboniad pan fo angen rhoi’r rheolau ar waith. Bydd dull mwy unigol yn cael ei fabwysiadu o ran diodydd sy’n cynnwys caffeine a phryderon tebyg.
- Bydd y tîm amlddisgyblaethol a’r Pennaeth Gofal yn archwilio cynlluniau gofal yn y dyfodol.

- Rhoi systemau digonol ar waith ar gyfer asesu atgyfeiriadau a rhoi cyfle i bob aelod perthnasol o'r staff gyfrannu.
- Paratoi siart llif i sicrhau, pan fydd cleifion yn cael eu symud o un rhan o'r ysbyty i'r llall, fod cynlluniau gofal yn adlewyrchu hyn ac yn cael eu hanfon gyda'r claf.
- Creu arolygon cleifion a fydd yn sicrhau bod yr ysbyty'n darparu gofal priodol i gleifion y mae angen lefelau gwahanol o adsefydlu neu ofal parhaus arnynt.

3.4 Er bod materion arwyddocaol wedi dod i'r amlwg yn ystod ein hymweliad, mae'r darparwr cofrestredig wedi rhoi nifer o gamau gweithredu ar waith ers ein hymweliad. Mae rhai gwelliannau wedi eu nodi a bydd yn rhaid cynnal y rhain; nodwyd gwelliannau neilltuol yn yr hyfforddiant a nifer y staff sydd wedi cael hyfforddiant. Hefyd, mae'r darparwr cofrestredig yn cynnal adolygiad corfforaethol llawn o'r dogfennau gofal. Mae AGIC o'r farn bod y cleifion a oedd yn cael gofal yn Delfryn yn ddiogel.



## 4. Gofynion

4.1 Mae'r gofynion a nodir isod yn mynd i'r afael ag unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio â Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011 a nodwyd un ai o ganlyniad i'r arolygiad neu yn sgil gwybodaeth arall a dderbyniwyd gan ac ynglŷn â'r darparwr. Yr *'unigolyn cofrestredig'* sydd, yn ôl y ddeddfwriaeth, yn cynnwys darparwr cofrestredig a/neu reolwr cofrestredig y sefydliad neu'r asiantaeth, sy'n gyfrifol am gyflawni'r gofynion hyn. Rhaid i'r unigolyn cofrestredig ddarparu cynllun gweithredu sy'n cadarnhau sut y mae'n bwriadu mynd i'r afael â'r camau gofynnol. Os bydd angen, bydd AGIC yn cymryd camau gorfodi i sicrhau y cydymffurfir â'r rheoliadau.

Safon Ofynnol Genedlaethol	Rheoliad	Canfyddiadau (Rhif y Paragraff)	Camau Gofynnol	Amserlen
10	18 (1) (a)	2.5	Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod preifatrwydd ac urddas cleifion yn cael eu gwarchod a rhaid peidio â gadael y paneli gweld yn nrysau ystafelloedd gwely'r cleifion ar agor.	Ar unwaith a pharhaus.
5	20 (1) (a) & (2) (a)	2.12, 2.14 & 2.15	Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bob amser fod unigolion â chymwysterau, sgiliau a phrofiad addas yn gweithio yn y sefydliad a rhaid sicrhau bod pob aelod o'r staff wedi cael hyfforddiant o ran Rheoli Trais ac Ymddygiad Ymosodol, Deddf Iechyd Meddwl (1983), Galluedd	Mae'r amserlen gychwynnol ar gyfer y cam gweithredu hwn wedi mynd heibio ac mae'r darparwr cofrestredig wedi cadarnhau bod pob aelod o'r staff bellach wedi cael hyfforddiant yn y meysydd a nodwyd.

			Meddyliol, Trefniadau Diogelu Rhag Colli Rhyddid (DOLS), atal tân, rheoli heintiau, lechyd a Diogelwch, a Diogelu Oedolion a Phlant. Hefyd, rhaid i bob aelod o'r staff gael lefel briodol o hyfforddiant sefydlu.	
15	15 (5) (a)	2.14	Rhaid i'r person cofrestredig sicrhau nad yw meddyginiaeth claf yn cael ei fenthyca i glaf arall.	Ar unwaith a pharhaus.
25	20 (2) (a)	2.13	Rhaid i'r person cofrestredig sicrhau bod pob aelod o'r staff yn cael ei oruchwyllo a'i arfarnu'n rheolaidd.	Ar unwaith a pharhaus.
8	15 (1) (a) & (b)	2.20, 2.21 & 2.22	Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod cynlluniau gofal ac asesiadau risg ar gael i bob claf a'u bod yn cael eu diweddarau'n rheolaidd. Hefyd, rhaid cadw un cofnod cynhwysfawr.	Ar unwaith a pharhaus
24	15 (1) (a) & (b) a 18 (2) (b)	2.23 & 2.24	Rhaid i'r darparwr cofrestredig gynnal adolygiad trylwyr o'r amser y mae nyrsys cofrestredig yn ei dreulio yn cofnodi gwybodaeth er mwyn sicrhau y cedwir hyn i lefel resymol.	Archwiliad llawn i'w gynnal erbyn 31 Mawrth 2013 a chanlyniadau'r archwiliad i'w hanfon i AGIC.

10	19 (1) (a) & (b) a 15 (1) (a) (b) & (c)	2.25	Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod pob penderfyniad yn seiliedig ar anghenion unigol y claf a bod "dull cyffredinol" o roi gofal yn cael ei osgoi.	Ar unwaith a pharhaus.
----	--	------	--	---------------------------

## 5. Y Camau Nesaf

5.1 Bydd ymweliadau pellach yn cael eu cynnal gan AGIC ag Ysbyty Delfryn House and Lodge a chaiff cydymffurfiaeth â'r rheoliadau a'r cynllun gweithredu eu hasesu ymhellach.

5.2 Yn ychwanegol at yr adroddiad hwn, mae'n ofynnol bellach i'r darparwr cofrestredig anfon cynllun gweithredu wedi'i ddiweddarau i AGIC yn rhoi sylw i'r holl feysydd rheoleiddio a nodir yn yr adroddiad hwn o fewn pythefnos.